SSCE CYMRU — SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES — CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU

# BWLETIN YSGOL MISOL – RHAGFYR 2022



## Swyddog Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol (Gorllewin Cymru)

*"Dwi i ffwrdd ar gyfnod mamolaeth cyn hir a bydd Emma Reeves yn ymuno â thîm SSCE Cymru i gwmpasu rôl Gorllewin Cymru yn ystod y cyfnod hwnnw. Diolch i'r holl ysgolion rydw i wedi gweithio gyda nhw fel yr RSLO ar gyfer plant Milwyr yng Ngorllewin Cymru, mae wedi bod yn bleser gweithio gyda'r ysgolion a gweld darpariaethau ar gyfer plant Milwyr yn tyfu. Rwyf mor gyffrous o weld a chlywed sut y bydd pethau'n datblygu gyda'r prosiectau sydd wedi'u sefydlu ar draws yr awdurdodau lleol yng Ngorllewin Cymru! Os oes gennych unrhyw ymholiadau anfonwch e-bost at SSCECymru@WLGA.gov.uk."* **Yasmin**

## Swyddog Arweiniol Cyfranogiad



*"Mae wedi bod yn fis prysur! Rydym wedi bod yn ddigon ffodus i ymweld ag ambell un o'n hysgolion a'u clybiau Little Troopers. Diolch i Ysgol Gynradd New Inn ac Ysgol Fabanod Mount Street; roedden ni wrth ein boddau yn paentio pabi, mynd i'ch gwasanaeth Cofio, a chymryd rhan mewn sesiwn lles Little Troopers gyda chi. Cawsom fwynhau Gŵyl Lluoedd Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn fawr, a gynhaliwyd gan Ysgol Cwm Brombil. Roedd yn llwyddiant mawr ac roedd yn hyfryd gweld cymaint o bobl ifanc anhygoel yn cael eu cefnogi gan eu hysgolion a'r gymuned ehangach. Hefyd cawsom fynd i'r Plant yng Nghymru, Gŵyl Cymru Ifanc 2022 a dysgu mwy am Hawliau Plant, gwrando ar blant a chlywed eu llais. Gyda hyn mewn golwg, byddwn yn parhau i gefnogi ysgolion i sicrhau bod plant / pobl ifanc y Lluoedd Arfog yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u clywed."* **Jo, Joanna.wolfe@wlga.gov.uk**

## DYLETSWYDD CYFAMOD Y LLUOEDD ARFOG

Mae Dyletswydd Cyfamod y Lluoedd Arfog yn rhwymedigaeth gyfreithiol ar rai cyrff cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol, i dalu sylw dyladwy i egwyddorion y Cyfamod wrth arfer rhai swyddogaethau.

**Daeth Dyletswydd y Cyfamod i rym ar 22ain Tachwedd 2022.**

**Rhagor o wybodaeth yma**

## CYLLID

**SSCE Cymru Cymhorthydd rheoli achosion**
Ar gael trwy gydol y flwyddyn.

Cyngor: Siaradwch â'ch Swyddog Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol a defnyddiwch ganllawiau cyllido SSCE Cymru ar gyfer ysgolion yng Nghymru.

**Rhagor o wybodaeth yma**

## HYFFORDDIA

**Sesiynau DPP SSCE Cymru**

Dyddiadau ar gael ym mis Ionawr.

**Gweler dyddiadau ac archebwch yma**

## ADNODDAU

**Dyletswydd Cyfamod y Lluoedd Arfog: Briff Awdurdodau Lleol a Ysgolion.**

**Ar gael yma**